CYNGOR

DYDD IAU, 12 HYDREF 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Ahmed, Ahmed, Dilwar Ali, Berman, Bradbury, Brown-Reckless, Burke, Carr, Carter, Cowan, Cunnah, Davies, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Gibson, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Owen Jones, Joyce, Lancaster, Latif, Lay, Lewis, Lister, Littlechild, Livesy, Lloyd Jones, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Moultrie, Naughton, Palmer, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Huw Thomas, Thomson, Lynda Thorne, Waldron, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood |

57 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ash-Edwards, Boes, Bowen-Thomson, Bridgeman, Choudhury, Elsmore, Goodway, Jenkins, Jackie Jones, Keith Jones, Kaaba, Lent, Mackie, Owen, Parry a Shimmin.

Cynhaliwyd munud o dawelwch yn cofio’r bywydau diniwed a gollwyd a'r rhai a oedd yn dioddef o ganlyniad i'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol.

58 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â’r Cod Ymarfer Aelodau.

| ENW | RHIF YR EITEM AGENDA | NATUR Y BUDDIANT | Y RHESWM DROS Y BUDDIANT |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Joe Carter | 3 | Personol a Rhagfarnus | Natur Cyflogaeth gydag Asthma & Lung UK |
| Y Cynghorydd Stephen Cunnah | 3 | Personol a Rhagfarnus | Natur Cyflogaeth gyda Sustrans |
| Y Cynghorydd Callum Davies | 3 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol, Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Garry Hunt | 3 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol, Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Chris Lay | 3 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol, Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Owen Jones | 3 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol, Bws Caerdydd |
| Y Cynghorydd Dan Naughton | 3 | Personol | Aelod o'r Teulu yn derbyn pensiwn gan Fws Caerdydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorydd Rhys Taylor | 3 | Personol | Cyfarwyddwr Anweithredol, Bws Caerdydd |

59 : HYSBYSIAD O GYNNIG

*Gadawodd y Cynghorwyr Carter a Cunnah y cyfarfod wrth ystyried yr eitem hon yn unol â'u buddiannau personol a rhagfarnus a ddatganwyd.*

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Williams ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Davies wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd diwygiad gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Williams i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

"**Mae'r Cyngor hwn yn nodi**;

1. Yn ddiweddar, cyflwynodd Llywodraeth Lafur Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022, gan ostwng y terfyn cyflymder diofyn yng Nghymru o 30 mya i 20 mya.
2. Ar ddydd Gwener 29 2023 roedd gan ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ar y terfyn cyflymder 20mya cyffredinol dros 447,000 o lofnodion. Mae cyfanswm y llofnodion yn rhagori ar nifer y pleidleisiau etholaethol a gafodd Llafur Cymru ledled Cymru yn Etholiadau'r Senedd yn ddiweddar yn 2021.
3. Cost uniongyrchol terfynau cyflymder 20 mya diofyn i economi Cymru fydd £4.5 biliwn dros gyfnod o 30 mlynedd. Cyfaddefodd Llywodraeth Cymru y gallai hyn gyrraedd £8.9 biliwn.
4. Mae gan Gyngor Caerdydd, fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, y pwerau cyfreithiol i eithrio ffyrdd yn y ddinas rhag y gostyngiad i'r terfyn cyflymder 20 mya diofyn. Mae'r Cyngor dim ond wedi defnyddio'r pŵer hwn i eithrio nifer fach o ffyrdd yn y Ddinas rhag y gostyngiad i'r terfyn cyflymder 20 mya.
5. Mae'r newid i derfynau cyflymder 20 mya diofyn yng Nghaerdydd wedi cynyddu tagfeydd ac amseroedd teithio i ddefnyddwyr ffyrdd gan gynnwys cwmnïau bysus, gan gynnwys Bws Caerdydd; ased sy'n eiddo i'r Cyngor.
6. Mae'r newid i derfynau cyflymder 20 mya diofyn yng Nghaerdydd wedi cynyddu amseroedd ymateb ar gyfer galwadau brys, gan gynnwys gwasanaethau brys a cherbydau damweiniau/adfer felly o bosibl mae'n rhoi'r cyhoedd mewn mwy o berygl o niwed.
7. Bydd y gostyngiad i derfynau cyflymder 20 mya diofyn yn effeithio ar ddanfoniadau trwy arafu gyrwyr a gallai hyn gynyddu'r amser ar gyfer danfoniadau a chreu mwy o gostau i fusnesau a/neu gwsmeriaid.
8. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r pŵer i Awdurdodau Priffyrdd Lleol gyflwyno terfynau cyflymder rhan amser lle mae awdurdod priffyrdd o'r farn bod eithriad i'r terfyn cyflymder 20 mya diofyn yn briodol ar rai adegau ond nid ar adegau eraill. Nid yw'n ymddangos bod Cyngor Caerdydd wedi cymhwyso'r pŵer hwn i ffyrdd a ddylai fod wedi aros ar 30 mya.

9. Mae cyflwyno terfynau cyflymder 20 mya diofyn yng Nghymru wedi costio £32 miliwn. Gallai'r arian hwn fod wedi cael ei wario'n ddoethach ar wasanaethau cyhoeddus rheng flaen gan gynnwys ein GIG, ein hysgolion a llenwi ein ceudyllau.
10. Nid yw'r newid i derfynau cyflymder 20 mya diofyn yn cyd-fynd â sylfaen polisi "cryfach, tecach, gwyrddach" y Cyngor.

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Gyngor Caerdydd, wrth weithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol i;**

1. Eithrio pob ffordd yng Nghaerdydd a oedd â therfynau cyflymder 30 mya cyn cyflwyno Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 rhag aros ar 20 mya ac felly dychwelyd y ffyrdd hyn yn ôl i derfynau cyflymder 30 mya.
2. Cynnal adolygiad brys o effeithiau andwyol y terfyn cyflymder 20 mya diofyn a chyhoeddi'r canfyddiadau o fewn 3 mis i ddyddiad trafod y Cynnig hwn.
3. Pan fydd ffyrdd yng Nghaerdydd yn dychwelyd i derfynau cyflymder 30 mya; gweithio gyda chymunedau lleol i sicrhau bod unrhyw geisiadau i ostwng terfynau cyflymder ffyrdd i 20 mya yn cael eu gwneud fesul achos."

Cafodd y Cynnig ei eilio'n ffurfiol gan y Cynghorydd Davies.

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig gan Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Berman i gynnig y diwygiad fel a ganlyn:

"**Mae'r Cyngor hwn yn nodi;**

1. Yn ddiweddar, cyflwynodd Llywodraeth Lafur Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022, gan ostwng y terfyn cyflymder diofyn yng Nghymru o 30 mya i 20 mya.
2. Mae gan Gyngor Caerdydd, fel Awdurdod Priffyrdd Lleol, y pwerau cyfreithiol i eithrio ffyrdd yn y ddinas rhag y gostyngiad i'r terfyn cyflymder 20 mya diofyn.
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r pŵer i Awdurdodau Priffyrdd Lleol gyflwyno terfynau cyflymder rhan amser lle mae awdurdod priffyrdd o'r farn bod eithriad i'r terfyn cyflymder 20 mya diofyn yn briodol ar rai adegau ond nid ar adegau eraill.

**Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Gyngor Caerdydd, wrth weithredu fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol i;**

1. adolygu o fewn tri mis i ddyddiad y cynnig hwn yn cael ei drafod, effaith peidio â gweithredu eithriad i'r terfyn 20 mya ar y llwybrau allweddol a phrifwythiennol hynny yn y ddinas mewn mannau lle mae'r terfyn 20 mya wedi'i gyflwyno, er mwyn:

a. asesu'n llawn effaith cyflwyno'r terfyn 20mya ar y llwybrau hynny, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus; a

b. cheisio barn drwy ymgynghori, gan gynnwys yn uniongyrchol gydag unrhyw un sy'n byw ar y ffyrdd dan sylw, ynghylch a ddylai'r terfyn 20 mya barhau'n berthnasol ar y llwybrau hyn; ac

2. wedi hynny, penderfynu, fesul achos, a ddylid newid unrhyw un o'r llwybrau hyn i gael eu heithrio o'r terfyn 20 mya."

Cafodd y diwygiad ei eilio’n ffurfiol gan y Cynghorydd Hopkins.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Williams i ymateb i'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Williams i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y diwygiad fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Berman a’i eiliwyd gan y Cynghorydd Hopkins.

Cefnogi (9)
Y Cynghorwyr Berman, Gibson, Hopkins, Latif, Livesy, Naughton, Taylor, Waldron a Wood

Yn erbyn (51)
Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Saleh Ahmed, Ali, Bradbury, Brown-Reckless, Burke, Carr, Cowan, Davies, De’Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Humphreys, Hunt, Lloyd Jones, Owen Jones, Joyce, Lancaster, Lay, Lewis, Lister, Littlechild, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Moultrie, Palmer, Proctor, Reid-Jones, Robinson, Robson, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Thomas, Thomson, Thorne, Weaver, Wild, Williams a Wong

Nid oedd unrhyw ymataliadau.

COLLWYD y bleidlais ar y diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd a gafodd ei gyflwyno gan y Cynghorydd Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Davies.

Cefnogi (11)
Y Cynghorwyr Brown-Reckless, Cowan, Davies, Driscoll, Lancaster, Littlechild, McEvoy, Melbourne, Reid-Jones, Robson a Williams

Yn erbyn (47)
Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Saleh Ahmed, Ali, Berman, Bradbury, Burke, Carr, De’Ath, Derbyshire, Ebrahim, Ferguson-Thorne, Gibson, Green, Gunter, Henshaw, Hinchey, Hopkins, Humphreys, Hunt, Lloyd Jones, Owen Jones, Joyce, Latif, Lay, Lewis, Lister, Livesy, McGarry, Merry, Michael, Moultrie, Naughton, Palmer, Proctor, Sangani, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Thomas, Thomson, Thorne, Weaver, Wild, Wong a Wood

Nid oedd unrhyw ymataliadau.

COLLWYD y bleidlais ar y Cynnig o Sylwedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.35 pm